MC
MATERION CASNEWYDD
Papur newydd swyddogol Cyngor Dinas Casnewydd

BAROD I'R GEMAU GYCHWYN

Mae disgwyl i filoedd o bobl ddod i'r ddinas fis yma wrth iddi baratoi i gynnal Gemau Trawsblaniadau Prydain Westfield Health 2019

Mae disgwyl i dros 2,500 o bobl gymryd rhan yn y digwyddiad a fydd yn para pedwar diwrnod mewn lleoliadau chwaraeon o amgylch Casnewydd.

Dyma dim ond yr ail dro mewn 42 mlynedd i'r Gemau gael eu cynnal yng Nghymru ac mae Cyngor Dinas Casnewydd yn falch iawn o fod yn un o'r noddwyr.

Dywedodd arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Debbie Wilcox: "Rydym wrth ein bodd o allu croesawu'r bobl a fydd yn cymryd rhan ynghyd â'u teuluoedd a'u ffrindiau a phobl leol sy'n awyddus i fod yn rhan o ddigwyddiad mor bwysig.

"Dylai pawb ystyried y neges mae'n ei hyrwyddo, sef yr angen i gael trafodaeth â'n hanwyliaid am roi organau er mwyn iddynt fod yn gwbl ymwybodol o'n dymuniadau."

Dywedodd Andrew Bridge, rheolwr digwyddiadau'r Gemau: *"Mae disgwyl i'r seremoni agoriadol fod yn ddigwyddiad gwych, a hoffwn wahodd pobl Casnewydd a'r ardaloedd cyfagos i ddod i fod yn rhan ohoni."*

- **Allech chi helpu drwy wirfoddoli yn y gemau?**

- **gweler tudalen 3 am fanylion pellach**

GWESTAI A CHARTREFI'N DOD Â GWEDD NEWYDD I'R DDINAS

Premier Inn
Premier Inn
Premier Inn

TEITHIO CYNALIADWY

Mae arolwg yn gofyn i drigolion roi eu barn ar strategaeth i helpu i leihau llygredd yn sgil rhwydwaith trafnidiaeth y ddinas nawr yn gyflawn.

Defnyddir y wybodaeth i grynhoi nifer o gamau gweithredu er mwyn i swyddogion yng Nghyngor Dinas Casnewydd allu creu Strategaeth Teithio Cynaliadwy.

Bydd hwn yn edrych ar ffyrdd o annog pobl i ymgymryd â beicio a cherdded, a chynyddu'r nifer o bwyntiau gwefru cerbydau trydan o amgylch y ddinas.

Bydd y strategaeth hefyd yn rhoi canllawiau ar geisiadau cynllunio i sicrhau eu bod oll yn chwarae rhan yn y ffordd y gall rhwydwaith trafnidiaeth y ddinas wella iechyd y cyhoedd, lleihau lefelau llygredd a lleihau effaith cynhesu byd-eang.

Nid yw'r strategaeth yn bwriadu nodi cynlluniau manwl, ond yn hytrach gweithredu fel man cychwyn i ddatblygu cynlluniau lleol fydd yn ategu ei gilydd.

GWEFAN DIOGELU GWENT

Mae diogelu yn gyfystyr â gwarchod iechyd, lles a hawliau dynol pobl, a'u galluogi i fyw yn rhydd o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod.

Gall rhieni, gofalwyr, teuluoedd, plant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ddod o hyd i gyfoeth o wybodaeth am ddiogelu plant ac oedolion, yn ogystal â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Mae gan y wefan, **www.gwentsafeguarding.org.uk** hefyd fanylion cyswllt ar gyfer pobl sydd eisiau rhoi gwybod am blentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg.

DATGELU EIN TIRWEDD UNIGRYW

Fis diwethaf, dadorchuddiodd y cyflwynydd rhaglenni bywyd gwyllt, a llywydd yr RSPB, Miranda Krestovnikoff fodel efydd o Lefelau Gwent, a llinell amser o rai o'r digwyddiadau hanesyddol sydd wedi llunio'r ardal.

Cafodd arddangosfa ryfeddol o atgynhyrchiadau o offer a gwaith llaw yn dyddio yn ôl i'r cyfnod Mesolithig, ynghyd â map â darluniau o Lefelau Gwent, hefyd ei hagor ar Lefelau Gwent.

Gwnaed hyn i gyd yn bosibl gan Bartneriaeth Tirwedd y Gwastadeddau Byw sy'n gweithio i adfeddiannu, gwella a dathlu'r ardal hanesyddol i bawb ei fwynhau.

Mae hefyd wedi lansio adnodd dysgu newydd yn ddiweddar ar gyfer y rhai hynny sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, gan ganolbwyntio ar yr amgylchedd unigryw hwn yng Nghasnewydd a thros y ffin i Sir Fynwy a Chaerdydd.

Bwriad yr adnodd yw cysylltu'r cwricwlwm yng Nghymru i dreftadaeth leol hynod tirwedd Lefelau Gwent.

Dywedodd Kathy Barclay, swyddog addysg Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent: *"Ein nod yw annog a meithrin diddordeb gydol oes yn yr amgylchedd naturiol lleol, ac mae hynny'n dechrau gyda'r dysgwyr ieuengaf.*

"Gan ddefnyddio'r adnoddau i helpu pobl ifanc i ddysgu'r sgiliau allweddol sydd eu hangen dan y cwricwlwm newydd, gan eu cymhwyso hefyd i'r tirweddau lleol."

Am ragor o fanylion am yr adnoddau dysgu ac i gadwlle ar y diwrnodau dysgu proffesiynol e-bostiwch Kathy yn **magormarsh@gwentwildlife.org**

CYMORTH I DEULUOEDD Y LLUOEDD ARFOG

Mae'n bosib bod rhaid i bobl ifanc y mae eu rhieni yn y Lluoedd Arfog, symud ysgol yn gyson os yw eu rhieni'n cael eu symud i rannau eraill o'r wlad, neu hyd yn oed dramor.

I helpu disgyblion i setlo'i fewn i amgylchedd newydd, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ariannu swyddog i'w rannu rhwng cynghorau Casnewydd a Sir Fynwy.

Mae Swyddog Cefnogi Addysg Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi yn gallu codi ymwybyddiaeth o anghenion plant y lluoedd arfog, ac os oes angen, gall roi cyngor a chefnogaeth i ysgolion a theuluoedd unigol i'w helpu i ymgartrefu mewn cymuned newydd.

Gellir rhoi cymorth drwy naill ai wneud cais am grantiau am adnoddau addysgol mewn ysgolion, cynnal clybiau i ddisgyblion neu gyfeirio ysgolion/teuluoedd at gymorth ychwanegol, neu drwy drefnu cyfleoedd cymdeithasol i deuluoedd o'r lluoedd arfog a'u plant, a gweithio'n uniongyrchol gyda'r bobl ifanc i roi cefnogaeth fugeiliol yn ôl yr angen.



Y CYNGOR SY'N GYFRIFOL NAWR AM ORFODI PARCIO SIFIL

Mae modurwyr sy'n parcio'n anghyfreithlon yn wynebu cael Hysbysiad Tâl Cosb (HTC) gan mai Cyngor Dinas Casnewydd fydd ar awenau gorfodi parcio sifil (CPE) o hyn ymlaen

Aeth misoedd o waith caled i adnewyddu llinellau ac arwyddion ledled y ddinas er mwyn i'r Cyngor gydymffurfio â deddfwriaeth i orfodi'r rheolau.

Mae tîm o swyddogion gorfodi sifil wedi treulio'r mis diwethaf yn hyfforddi i baratoi ar gyfer patrolio'r strydoedd i sicrhau nad yw gyrwyr yn torri Rheolau'r Ffordd Fawr.

Cymerodd y Cyngor gyfrifoldeb dros Orfodi Parcio Sifil oddi wrth Heddlu Gwent yn swyddogol ar 1 Gorffennaf. Fodd bynnag, bydd cyfrifoldeb dros orfodi deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â thraffig, yn enwedig o ran troseddau mwy difrifol neu pan fo angen er diogelwch y cyhoedd, yn aros gyda Heddlu Gwent.

Cynhaliwyd ymgyrch hefyd gan y Cyngor i atgoffa modurwyr i barcio'n ddiogel ac yn y modd cywir gyda'r neges #ParcioCywir ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Dywedodd y Cynghorydd Roger Jeavons, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau'r Ddinas, fod swyddogion gorfodi'n canolbwyntio ar wneud strydoedd canol y ddinas yn fwy diogel yn ystod wythnosau cyntaf y weithdrefn newydd yn dilyn cwynion gan y cyhoedd a busnesau lleol o ran parcio anghyfreithlon.

"Mae ein neges yn syml: os dilynwch Reolau'r Ffordd Fawr a pharcio'n ddiogel, ni fyddwch yn derbyn tocyn, ond os torrwch y rheolau, fe fyddwch.

"Rydym yn gwybod bod miloedd o'n preswylwyr yn croesawu'r ffaith fod y Cyngor bellach yn gyfrifol am orfodi parcio sifil. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn ac rydym yn gwybod nad yng nghanol y ddinas yn unig y ceir y broblem.

"Mae mannau ledled y ddinas lle mae parcio anghyfreithlon yn rhemp a bydd gennym system ar waith lle gall pobl adrodd am hyn a gellir defnyddio'r wybodaeth i drefnu patrolau yn y misoedd nesaf," meddai'r Cynghorydd Jeavons.

TEITHWYR

Mae Cyngor Dinas Casnewydd hefyd, fel ei breswylwyr, yn rhwystredig dros wersylloedd anghyfreithlon ar fannau sensitif megis ardaloedd chwarae.

Mae'r cyngor wedi cytuno i brotocol rhanbarthol gyda Heddlu Gwent a'r pedwar cyngor arall ar gyfer rheoli gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr heb eu hawdurdodi.

Mae'n rhaid dilyn y prosesau cyfreithiol cywir, asesu'r sefyllfa a chynnwys partneriaid er mwyn gallu cynnal asesiadau cyn gweithredu.

Gallai hyn arwain at gamau cyfreithiol er mwyn gwneud cais i droi allan o dir y cyngor, a gallai hynny gymryd amser.

Unwaith y bo'r safle'n wag, bydd y cyngor yn anfon tîm glanhau i'r ardal i lanhau sbwriel a sicrhau bod y safle'n ddiogel ar gyfer y cyhoedd.

TEGANNAU GWYNT - CADW'N DDIOGEL

Sicrhewch eich bod yn gwybod am yr holl reoliadau iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â llogi castell bownsio ar gyfer digwyddiad.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gofyn i breswylwyr edrych ar wefan sy'n cynnig canllaw ar eu defnyddio.

Ewch i **www.hse.gov.uk/entertainment/fairgrounds/inflatables.htm** i ddarllen canllawiau er mwyn helpu i gadw pobl yn ddiogel.

PWYNTIAU GWEFRU

I barhau â'i ymrwymiad i leihau allyriadau carbon, bydd y cyngor yn gosod mwy o bwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan o gwmpas y ddinas.

Mae pwyntiau gwefru eisoes y tu allan i fynedfa flaen y ganolfan ddinesig ac mae podiau ychwanegol wedi'u cynllunio ar gyfer maes parcio Godfrey Road yn ddiweddarach eleni.

Mae yna ddau bwynt gwefru cyhoeddus ym maes parcio Park Square hefyd.

Mae cynlluniau ar y gweill hefyd am bwyntiau gwefru trydan newydd yn Nepo Telford, sy'n eiddo i'r cyngor, a'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref, at ddefnydd staff y cyngor.

Y llynedd, cytunodd cynghorwyr i leihau allyriadau carbon ledled y ddinas a chreu amgylchedd iachach a gwyrddach drwy gyflwyno dau gerbyd trydan i'w fflyd.

Bu'r cyngor hefyd yn rhan o astudiaeth o ddichonoldeb gan bum awdurdod lleol Gwent yn edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar draws y rhanbarth.

Mynegodd preswylwyr eu barn ar safleoedd lleoliadau posibl trwy gyfrwng arolwg ar-lein a chaiff yr wybodaeth hon ei choladu a'i defnyddio fel tystiolaeth er mwyn dod o hyd i gyfleoedd i fwrw'r cynllun yn ei flaen.

GEMAU TRAWSBLANIADAU PRYDAIN

Mae'r ddinas yn barod i groesawu dros 1,000 o gystadleuwyr sy'n paratoi at gymryd rhan yng Ngemau Trawsblaniadau Prydain Westfield Health y mis hwn.

Y gemau yw prif ddigwyddiad elusen Transplant Sport, a byddant yn digwydd mewn lleoliadau ledled Casnewydd rhwng 25 a 28 Gorffennaf.

Ym mis Mehefin, galwodd y trefnwyr am dros 200 gwirfoddolwr i helpu i gynnal y digwyddiad, a ddenodd dros 950 derbynnydd trawsblaniad organ i'r ddinas, i gymryd rhan mewn 23 camp a digwyddiad.

Bydd gwirfoddolwyr yn cymryd ystod o rolau, o gysylltu ag athletwyr, cefnogwyr a phwysigion i helpu yn y seremoni agoriadol.

Mae trefnwyr hefyd yn chwilio am bobl a allai helpu i stiwardio, a chymryd dyletswyddau cadw sgôr ac amseru a'r rheiny a allai helpu i drefnu gweithgareddau adloniant i blant.

Mae'r Gemau'n argoeli'n ŵyl o gampau a bywyd, gyda disgwyl dros 2,500 o bobl yno.

Bydd goroeswyr trawsblaniadau, yn cynnwys plant mor ifanc â thair oed yn cymryd rhan mewn campau megis athletau, pêl fasged, beicio, pêl droed, golff, snwcer, nofio, tenis, pêl foli a'r Ras Rhoddwyr Organau, digwyddiad cynhwysol sydd ar agor i'r cyhoedd.

Nod y gemau yw codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd rhoi organau. Cymru fu'r wlad gyntaf i gyflwyno system optio allan ysgafn ar gyfer y gofrestr rhoddwyr organau.

Fodd bynnag, yr anwyliaid sy'n dal i benderfynu rhoi organau ai peidio. Dyna pam mae trefnwyr yn awyddus i ledaenu'r neges bod angen i chi roi gwybod i'ch teulu beth hoffech ddigwydd i'ch organau.

Ar 31 Rhagfyr 2018, roedd 232 o gleifion yng Nghymru yn aros am drawsblaniad. Yn ystod tri chwarter cyntaf 2018/19, bu farw 19 claf wrth aros ar y rhestr aros.

Noddir y digwyddiad gan Westfield Health, Llywodraeth Cymru, Cyngor Dinas Casnewydd, Casnewydd Fyw, byrddau iechyd lleol ledled Cymru, GIG Gwaed a Thrawsblannu, Kidney Care UK, Cofrestr Anthony Nolan, Donor Family Network a Believe Organ Donor Support. Mae'r noddwyr eraill yn cynnwys Friars Walk, Icon Design, Rodney Parade a Gwesty'r Celtic Manor.

Mae'n bosibl bod amser o hyd i wirfoddolwyr gofrestru i gynnig helpu, ewch i* ***https://www.newportlive.co.uk/jobs/799-volunteer-opportunity-british-transplant-games-2019* *i wneud cais.*

EIDDO Â FFENESTRI WEDI EU BYRDDIO

Rhoddwyd byrddau dros ffenestri yn ardaloedd Malpas a Betws yng Nghasnewydd yn dilyn cwynion gan gymdogion am gamddefnyddio'r eiddo.

Ymunodd Heddlu Gwent â Thîm Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Dinas Casnewydd, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a pherchnogion yr eiddo i ddiogelu'r adeiladau.

Roedd y cyhoedd wedi adrodd bod y tai yn Tone Road, Betws, a Pillmawr Road, Malpas, yn denu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cefnogwyd camau gweithredu o ran y cyfeiriad yn y Betws gan Cartrefi Dinas Casnewydd a gorfodwyd y gorchymyn cau ar gyfer y cyfeiriad ym Malpas trwy gytundeb â'i berchennog preifat.

CYNLLUN ECO-SÊR

Cyngor Dinas Casnewydd yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i ymuno â'r cynllun ECO-SÊR.

Mae'r cynllun adnabod fflyd ECO-SÊR yn rhoi cyngor annibynnol, arbenigol am ddim i weithredwyr cerbydau masnachol ar reoli tanwydd a pherfformiad amgylcheddol fflydoedd.

Ni chodir tâl i ymaelodi â'r fenter sydd bellach ar gael i weithredwyr cerbydau masnachol yng Nghasnewydd, o gerbydau unigol i fflydoedd corfforaethol mawr.

Mae ymaelodi'n syml ac mae angen ond ychydig oriau i gynnal asesiad ar y safle. Mae pob aelod yn derbyn cynllun gweithredu byr sy'n cael ei gytuno yn ystod yr ymweliad, sy'n gallu helpu i leihau'r defnydd o danwydd a'r gost gysylltiedig ac allyriadau i'r amgylchedd lleol.

Mae mwy o fanylion ar gael yn www.ecostars-uk.com

DIGWYDDIADAU'R HAF

Bydd gŵyl theatr stryd awyr agored boblogaidd i deuluoedd y Sblash Mawr yn dychwelyd i strydoedd Casnewydd y mis hwn i ddiddanu pobl leol ac ymwelwyr o'r cyffiniau.

Yn un o'r gŵyliau am ddim mwyaf o'i bath yng Nghymru, bydd y Sblash Mawr a drefnir gan Glan yr Afon yn meddiannu canol y ddinas o ddydd Sadwrn 20 tan dydd Sul 21 Gorffennaf 2019 ar gyfer penwythnos llawn digwyddiadau a pherfformiadau am ddim i oedolion a phlant.

Gyda chymorth ariannol gan Casnewydd Fyw a Chyngor Celfyddydau Cymru yn ogystal â nawdd gan Friars Walk, Canolfan Ffordd y Brenin, Newport Now a Western Power Distribution, bydd y Sblash Mawr yn difyrru miloedd o bobl gyda theatr stryd a cherddoriaeth fyw yn ogystal â gweithgareddau i'r holl deulu, a'r cyfan am ddim.

Mae Ardal Gwella Busnes (AGB) Newport Now yn noddi'r Sblash Mawr am y drydedd flwyddyn. Meddai Kevin Ward, rheolwr yr AGB, *"Rydym wrth ein boddau o fod yn rhan o'r Sblash Mawr eto. Mae wedi dod yn un o'r prif ddigwyddiadau yng nghalendr canol y ddinas ac yn denu cwsmeriaid mawr eu hangen i'r Ardal Gwella Busnes i wylio'r perfformiadau stryd penigamp."*

Meddai Simon Pullen, Cyfarwyddwr Canolfan Friars Walk, *"Rydym wrth ein boddau o fod yn rhan o'r Sblash Mawr unwaith eto – bydd Parth Friars Walk yn dychwelyd gyda theatr stryd fywiog a hwyl i'r teulu cyfan."*

Bydd perfformiadau unwaith eto'n cael eu cynnal mewn chwe pharth Sblash Mawr ac mae'r trefnwyr yn disgwyl torfeydd hyd yn oed mwy na'r llynedd pan wnaeth dros 24,000 o bobl fwynhau'r digwyddiad. *"Yng Ngŵyl y Sblash Mawr y llynedd, cafodd dinas Casnewydd ei meddiannu am un penwythnos yn unig gan forfilod anferth, ungyrn ar feiciau un olwyn a changarŵs neidiol ac enwi ond rhai. Eleni gall pobl ddisgwyl i hyd yn oed mwy o gymeriadau anhygoel feddiannu strydoedd y ddinas, yn ogystal â rhai syrpeisys wrth gwrs!"* dywedodd Olivia Harris, Cynhyrchydd Creadigol Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan-yr-Afon a'r Sblash Mawr.

I wybod mwy am Sblash Mawr 2019, ewch i www.bigsplashnewport.com

Her ddarllen yr haf

Gall darllenwyr ifanc nawr gymryd rhan yn her ddarllen yr haf a gynhelir mewn llyfrgelloedd trwy gydol gwyliau haf yr ysgolion.

Bydd yr her yn seiliedig ar thema "Ras y Gofod". Anogir pobl ifanc rhwng 4 ac 11 oed i ddarllen chwe llyfr yn ystod y gwyliau hir.

Cadwch lygad am wybodaeth am yr her ar wefan y cyngor ac yn y llyfrgelloedd.

GYRRU GWRTHRYFEL BYSUS

NEWPORT bus

Yn fuan bydd Trafnidiaeth Casnewydd yn gweithredu'r bysus dim allyriadau cyntaf yng Nghymru trwy gyflwyno 15 cerbyd hollol drydanol i'w fflyd.

Mae wedi archebu'r bysus unlawr Yutong E12 a disgwylir i'r bws cyntaf mewn lliwiau Trafnidiaeth Casnewydd gyrraedd y mis hwn.

Bydd saith arall yn cyrraedd ym mis Chwefror gyda'r saith sy'n weddill yn cyrraedd ym mis Ebrill. Byddant yn cynrychioli 15 y cant o fflyd cerbydau Bws Casnewydd.

Mae Trafnidiaeth Casnewydd wedi derbyn £1.342 miliwn gan y Cynllun Bysus Allyriadau Isel Iawn (ULEB). Mae'n gweithio gydag Yutong UK, Pelican Engineering a Zenobe Energy, perchennog annibynnol a gweithredwyr storfeydd batris.

Dywedodd y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd: *"Bydd bysus trydanol glân ac effeithlon heb allyriadau yn gwella ansawdd aer ledled y ddinas yn sylweddol er budd pawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghasnewydd."*

Ychwanegodd y Cynghorydd Jane Mudd, cadeirydd Trafnidiaeth Casnewydd: *"Dyma ddatblygiad cyffrous ac arloesol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yn y ddinas."*

CYMERWCH OLWG AR EIN CYRSIAU NEWYDD

Mae cyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned ar gael i bawb 16 oed a hŷn i'w helpu i ennill cymwysterau, manteisio ar gyfleodd cyflogaeth neu gyflawni nodau personol.

Cymerwch olwg ar ein rhaglen ar-lein o gyrsiau 2019, neu ar gopi caled o'r rhaglen mewn llyfrgelloedd ac adeiladau cymunedol eraill.

Newport Adult Community Learning
Dysgu Cymunedol i Oedolion Casnewydd

Ddydd Mercher 7 Awst, bydd cyfle i ddysgu mwy am y cwrs sgiliau byw annibynnol ar gyfer oedolion sydd ag anawsterau dysgu. Mae diwrnod agored yn cael ei gynnal rhwng 10am a 2pm yng Nghanolfan Ddysgu Cymunedol a Llyfrgell St Julian ar Beaufort Road.

Caiff diwrnod agored cyffredinol ei gynnal yng nghanolfan St Julian rhwng 3pm a 7pm ddydd Mercher 4 Medi lle gall pobl ddysgu mwy am gyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned.

Am fwy o wybodaeth ewch **i http://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/Community-Learning/Community-Learning.aspx,** email **community.learning@newport.gov.uk** e-bostiwch **01633 656656**

GWNEUD CAIS AR GYFER LLE MEITHRIN NEU YSGOL YN 2020

Yng Nghasnewydd gall rhieni ddewis anfon eu plant naill ai i ysgol cyfrwng Cymraeg neu Saesneg neu i ysgolion Catholig neu'r Eglwys yng Nghymru. Os ydych yn ystyried addysg Gymraeg ar gyfer eich plentyn, ewch i http://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/Learning-Welsh-in-Newport/Learning-Welsh-in-Newport.aspx

- Os oes angen lle meithrin neu ysgol arnoch, rhaid i chi wneud cais i ddweud wrthym beth yw eich dewisiadau – nid oes modd rhoi lle i'ch plentyn os nad ydych yn gwneud cais.
- Mae pob cartref yn nalgylch ysgol Gymraeg a Saesneg lle bydd eich plentyn yn cael blaenoriaeth. Ewch i **www.casnewydd.gov.uk/derbyniadauysgol**
- Er nad yw gwneud cais yn gwarantu lle, bydd mynegi dewis o ran ysgol yn rhoi blaenoriaeth i'ch plentyn dros blant nad yw eu rheini wedi gwneud felly
- Bydd rhywun y tu allan i'ch dalgylch sy'n mynegi dewis am eich ysgol ddalgylch yn cael blaenoriaeth uwch na'ch plentyn os nad ydych yn mynegi dewis amdani.
- Os ydych yn hwyr wrth gyflwyno eich cais, byddwch yn llai tebygol o gael lle yn y dosbarth meithrin neu'r ysgol o'ch dewis
- If the school you have applied for is very popular your child may be refused a place so it is important to consider submitting preferences for more than one school
- Gellir cynnig lle meithrin dechrau cynnar i blant a anwyd rhwng 1 Medi 2016 a 31 Mawrth 2017 yn y mis Ionawr neu'r mis Ebrill ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed os oes lleoedd ar gael
- Meddyliwch am sut bydd eich plentyn yn teithio i'r ysgol gan na fyddant o anghenraid yn gymwys i gael cymorth

Chwalu Camsyniadau!

- Os ydych yn gwneud cais ar gyfer un ysgol yn unig, bydd y lle hwnnw yn cael ei roi i'ch plentyn - ANGHYWIR
- Os oes brawd neu chwaer gan eich plentyn yn yr ysgol, bydd lle yn cael ei roi iddo ef/iddi hi hefyd - ANGHYWIR
- Os yw eich plentyn eisoes yn mynd i'r ysgol feithrin, mae lle yn y dosbarth derbyn wedi'i warantu iddo/iddi - ANGHYWIR
- Byddwch yn cael lle yn yr ysgol uwchradd os yw'ch plentyn eisoes yn mynd i ysgol gynradd yn y clwstwr - ANGHYWIR
- Eich ysgol ddalgylch bob amser yw'r ysgol sydd agosach atoch - ANGHYWIR
- Mae lle wedi'i warantu i'ch plentyn yn eich ysgol ddalgylch - ANGHYWIR
- Caiff lleoedd eu dal wrth gefn rhag ofn bod teuluoedd yn symud i'r ardal - ANGHYWIR

I wneud cais, ewch **i www.casnewydd.gov.uk/derbyniadauysgol**

Mae mynediad gwe ar gael ym mhob llyfrgell Casnewydd am 2 awr y dydd. Mae cymorth gyda cheisiadau ar lein i'w gael yng Ngorsaf Wybodaeth Casnewydd neu drwy ffonio (01633) 656656.

ETHOL MAER RHIF 387

Y Cynghorydd William J Routley yw'r 387fed Maer a bydd ei bartner Alison yn faeres am y flwyddyn ddinesig nesaf.

Sefydlwyd Cymynrodd David "Bomber" Pearce i anrhydeddu unig Bencampwr Pwysau Trwm Prydain a pherchennog Gwregys Lonsdale, gŵr oedd yn dod o Gasnewydd.

Mae'r elusen yn cynnig cymorth i unigolion a chlybiau cymunedol ym maes chwaraeon sy'n ceisio ysbrydoli pobl ifanc trwy brojectau cymunedol. Mae hefyd yn cefnogi elusennau lles lleol eraill yng Nghasnewydd a de Cymru.

Y dirprwy faer ar gyfer 2019/2020 yw'r Cynghorydd Charles Ferris a Caroline Ferris fel ei gymar yn y swydd.

Yn dilyn cyfarfod blynyddol Cyngor Dinas Casnewydd, cafodd y Cynghorydd Debbie Wilcox ei hethol yn Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd unwaith eto**.**

Dyma Aelodau'r Cabinet (AC):

Y Cyng. Mark Whitcutt, Dirprwy Arweinydd a'r AC dros Asedau a Chydraddoldeb; y Cyng. Gail Giles, AC dros Addysg a Sgiliau; y Cyng. Paul Cockeram, AC dros y Gwasanaethau Cymdeithasol; y Cyng. Jane Mudd, AC dros Adfywio a Thai; y Cyng. David Mayer, AC dros Gymunedau ac Adnoddau; y Cyng. Roger Jeavons, AC dros Wasanaethau'r Ddinas; y Cyng. Ray Truman, AC dros Drwyddedu a Rheoleiddio; a'r Cyng. Deb Harvey, AC dros Ddiwylliant a Hamdden, a Rheolwr Busnes.

MILOEDD O BOBL IFANC YN CAEL HELP I BARHAU AG ADDYSG

Mae miliynau o bunnoedd o arian yr UE wedi helpu miloedd o bobl ifanc ledled de-ddwyrain Cymru sydd mewn perygl o adael yr ysgol cyn amser i barhau ag addysg neu hyfforddiant er mwyn gwella eu cyfleoedd cyflogaeth.

Caiff Ysbrydoli i Gyflawni ei arwain gan Gyngor Dinas Casnewydd ynghyd â phartneriaid gan gynnwys Cyngor Dinas Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Sir Fynwy, Coleg Gwent, Coleg Caerdydd a'r Fro a Gyrfa Cymru.

Mae'r bartneriaeth wedi galluogi arian o'r UE i gael ei sicrhau i ddarparu cymorth cynnar i bobl ifanc 11 i 19 oed sydd mewn perygl o adael yr ysgol yn gynnar neu fod yn NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) pan fyddant yn gadael addysg amser llawn.

Mae cynllun Ysbrydoli i Weithio Cyngor Casnewydd yn darparu mentora un-i-un, cymorth gyda sgiliau sylfaenol a phersonol a llythrennedd digidol i bobl ifanc 16-24 oed sy'n gallu ennill cymwysterau, cael mynediad i addysg bellach a dod o hyd i gyflogaeth.

Mae'r cynllun, a ddechreuwyd ym mis Ebrill 2016, wedi cefnogi 2,376 o bobl ifanc. Yng Nghasnewydd mae'r cynllun newydd gynorthwyo'r 1000fed person i gyflawni'r canlyniad hwn.

Dywedodd y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd, *"Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o lithro trwy'r rhwyd a cholli cyfleoedd addysgol neu hyfforddiant hanfodol."*

Dywedodd y Cynghorydd Gail Giles, Aelod Cabinet y Cyngor dros Addysg a Sgiliau,

"Fel cyngor rydym eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth leihau nifer y bobl ifanc Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac mae cyllid yr UE yn helpu'r cynllun Ysbrydoli i Weithio fel y gallwn ni helpu hyd yn oed mwy o bobl ifanc i gyflawni eu potensial.

▶ *Y Cynghorydd Debbie Wilcox*

ANRHYDEDDU ATHRAWON SY'N YSBRYDOLI

▶ *Emma Gray a Kirsty Williams*

▶ *Phil Meredith a Kirsty Williams*

Roedd Emma Gray a Phil Meredith ymhlith yr enillwyr yn nhrydedd Seremoni Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru.

Cyflwynwyd y gwobrau gan Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, mewn deg categori mewn seremoni arbennig i ddathlu rhagoriaeth mewn addysg.

Enillodd Emma, o Ysgol Basaleg, y wobr am gefnogi athrawon a dysgwyr. Fe'i henwebwyd am ei gwaith caled a'i hymrwymiad at roi'r cymorth gorau posibl i ddisgyblion yn yr ysgol.

Dywedodd, *"Rydym yn gofalu gyda'n gilydd yn Ysgol Basaleg, felly mae hyn ar gyfer pob un ohonom. Hoffwn i ddiolch i blant rhyfeddol Ysgol Basaleg.*

"Rydych yn rhoi llawenydd i fy niwrnod bob dydd ac yn f'ysbrydoli gyda'ch dewrder, eich cryfder a'ch gwydnwch. Rwy'n llawn edmygedd ohonoch chi."

Enillodd Phil Meredith, o Ysgol Caerllion, y wobr am y defnydd gorau o dechnoleg ddigidol. Fe'i enwebwyd am ei ffordd arloesol o ddefnyddio technoleg ddigidol i helpu pob myfyriwr ac aelod staff yn yr ysgol.

Dywedodd Phil, *"Mae'n anrhydedd fawr i fi dderbyn y wobr hon. Rwy'n falch iawn o ennill y wobr hon fel arwydd o'n cyflawniad ar y cyd yn Ysgol Gyfun Caerllion."*

Meddai Kirsty Williams, *"Roedd safon yr enwebeion mor uchel fel bod pawb a gyrhaeddodd y seremoni yn haeddu clod uchel am eu holl waith caled a'u hymrwymiad."*

Cyrhaeddodd dau arall o Gasnewydd y rownd derfynol – rhoddwyd Ceri Parry o Ysgol Gymraeg Casnewydd ar y rhestr fer ar gyfer pennaeth y flwyddyn a daeth Lucio Nocivelli, o Ysgol Gynradd Eveswell, yn ail yng nghategori'r athro newydd eithriadol.

CYFLWYNO SGILIAU DIGIDOL MEWN CLYBIAU CODIO AR ÔL YSGOL

Dywedir y bydd 65 y cant o'r plant sy'n dechrau yn yr ysgol gynradd heddiw yn mynd ymlaen i weithio mewn swyddi nad ydyn nhw'n bodoli eto! Gyda golwg ar baratoi ein pobl ifanc ar gyfer y gweithle, mae dau fusnes lleol, Interceptor Solutions ac Innovation Point, wedi bod yn gwirfoddoli eu hamser ac arbenigedd i sicrhau mai Casnewydd yw prifddinas sgiliau digidol Cymru.

Mae Richard Sheppard o Interceptor Solutions a Simon Renault o Innovation Point wedi bod yn rhoi o'u hamser i gyflwyno clybiau codio ar ôl ysgol i chwech o ysgolion cynradd ledled ardal Casnewydd. Yn ogystal â gwirfoddoli ei amser mae Richard hefyd wedi bod mor garedig â rhoi adnoddau sy'n fawr eu hangen i ysgolion, megis llyfrau dysgu codio, a ddefnyddir gan y plant i ddysgu Scratch ac ieithoedd cyfrifiadur mwy soffistigedig fel Python.

Dywed Richard *"Rydym wedi cyflwyno sesiynau yn ysgolion Lodge Hill, Ringland, Milton, Eveswell, Llanfarthin ac Alway ac mae'r sesiynau'n boblogaidd, yn denu bechgyn a merched rhwng wyth a 10 mlwydd oed. Mae gan bob clwb 15 o blant yn eu mynychu'n rheolaidd, a phob un wrth ei fodd o fod y genhedlaeth nesaf o chwaraewyr gemau, datblygwyr meddalwedd neu ddim ond cael y sgiliau digidol sydd eu hangen ar bawb yn yr oes ddigidol hon."*

Mae Simon, mewn partneriaeth ag Academi Meddalwedd Genedlaethol Prifysgol Caerdydd, Casnewydd, wedi dod â Chenhadon Sefydliad myfyrwyr rhaglenni codio a gwyddorau cyfrifiadur STEM gydag ef i gefnogi'r gwaith o redeg y clybiau codio wrth i'r fenter ehangu. Bydd myfyrwyr gwyddorau cyfrifiadur campws Coleg Gwent y ddinas hefyd yn cymryd rhan yn y gwaith o gyflwyno clybiau ar ôl ysgol. Gyda'r cymorth ychwanegol hwn y gobaith yw lansio cystadlaethau cyffrous rhwng ysgolion yn y dyfodol.

A dim ond y dechrau yw hyn. Y targed, drwy annog mwy o fusnesau a gwirfoddolwyr i gymryd rhan, yw i ysgolion cynradd ledled Casnewydd gael cyfleoedd i gymryd rhan mewn clybiau codio tebyg. Os hoffech wirfoddoli i helpu i redeg clwb ar ôl ysgol neu noddi offer sydd mawr ei angen, cysylltwch â Richard Sheppard drwy e-bostio **info@newportcodeclubs.co.uk**

MOSAIGAU MENYWOD CASNEWYDD

Mae plant ysgol a grwpiau cymunedol wedi helpu artist o Gasnewydd i greu gwaith celf ysbrydoledig ar gyfer canol y ddinas.

Llwyddodd Cyngor Dinas Casnewydd i ennill cyllid gan y Gronfa Dreftadaeth ar gyfer ei broject Hanes Menywod.

Mae'r artist Stephanie Roberts wedi gweithio gyda disgyblion a gwirfoddolwyr i greu chwe mosaig i gofio menywod Casnewydd gan gynnwys Siartwyr a swffragetiaid ynghyd â modelau rôl mwy diweddar hefyd.

Helpodd hanesydd lleol, Peter Strong, gyda gweithdy ymchwil ac aeth yr awdur Sylvia Mason i ymweld â'r sesiwn grwpiau cymunedol i siarad am fudiad y swffragetiaid cyn i'r gwaith ymarferol ddechrau.

Mae Ysgol Gynradd Gatholig St Michael wedi helpu i ddylunio a chreu'r mosaig i gofio'r menywod hyn. Dysgon nhw am Faer benywaidd cyntaf Casnewydd, Mary Hart.

Bu i ddisgyblion Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon gwrdd â Natasha Cockram, yr athletwr a enillodd ras y menywod ym marathon cyntaf Casnewydd, cyn dechrau'r gwaith ar eu mosaig yn adlewyrchu menywod yn y byd chwaraeon.

Roedd Ysgol Gynradd Pillgwenlli ynghlwm wrth y gwaith celf yn ymwneud â gweithwyr oedd yn fenywod a rhoddodd Peter Strong wybodaeth iddyn nhw ar ffatrïoedd arfau Casnewydd yn ystod y rhyfel, a'r effaith y mae'r gweithlu blaengar hwnnw wedi'i chael ar gymdeithas heddiw.

Yn ogystal, cafodd aelodau'r cyhoedd gyfle i gwrdd â Stephanie

Roberts yn Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan-yr-Afon ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod ym mis Mawrth a rhannu straeon.

Cynhaliwyd gweithdai creu mosaigau yn ystod y gwanwyn dan arweiniad yr artist, a phan fydd yr holl ddarnau wedi'u cwblhau byddant yn cael eu datgelu ar wal yn St Paul's Walk, ger y mosaigau i gofio'r Rhyfel Mawr a osodwyd y llynedd.



CYNNYDD MEWN AILGYLCHU WEDI I FINIAU LLAI GAEL EU CYFLWYNO

Mae Cymru'n cael ei chydnabod yn wlad sydd ar flaen y gad o ran ailgylchu ac mae Casnewydd yn chwarae eu rhan yn yr ymdrech i leihau gwastraff.

Ar ddechrau'r flwyddyn, cymeradwyodd y Cynghorydd Roger Jeavons, aelod y cabinet dros Wasanaethau'r Ddinas, nifer o argymhellion i gynyddu'r gyfradd ailgylchu, gan gynnwys cyflwyno biniau newydd, llai o faint.

Ers mis Ebrill, mae miloedd o'r biniau hyn wedi eu cyflwyno i gartrefi ar hyd a lled y ddinas – ac mae'r Cyngor wedi gweld cynnydd mewn ffigurau ailgylchu.

Mae gwastraff gardd hefyd yn cynyddu ac os bydd y duedd hon yn parhau bydd y cyngor yn rhagori ar y targed ailgylchu statudol sydd wedi ei osod arno gan lywodraeth Cymru – ac yn arbed arian.

Mae'r data cychwynnol yn galonogol iawn, gyda sbwriel yn disgyn gan 30 y cant a gwastraff bwyd ac ailgylchu yn cynyddu gan ryw 25 y cant.

Amcangyfrifir bod tua 65 y cant o wastraff mis Ebrill wedi ei ailgylchu, un o'r lefelau uchaf erioed yng Nghasnewydd.

Mae'r hen finiau wedi mynd i ddepo Docks Way, lle tynnir eu holwynion er mwyn eu hailddefnyddio.

Mae echelau dur y biniau yn cael eu tynnu oddi ar y biniau ac yn cael eu hailgylchu fel metel sgrap.

Mae'r cynhwysyddion plastig eu hunain, ynghyd â'u cloriau, yn cael eu malu'n fân gan falwr symudol, ac wedyn mae'r darnau plastig mân yn mynd i gwmni ailgylchu yn Sir Gaergrawnt.

Yno, mae'r darnau plastig yn cael eu golchi, eu malu'n ddarnau llai byth, yna'n cael eu hailolchi a'u troi'n bolymer cyfansawdd y gellir ei ddefnyddio i greu cynnyrch plastig newydd megis biniau newydd a chelfi gardd.

DIGWYDDIADAU

THEATR GLAN YR AFON
01633 656656
www.newportlive.co.uk/riverfront

18 Gorffennaf, 7.30pm
Labordy Pop Frisky & Mannish (Rhagddangosiad Sioe Caeredin 16+)

20/21 Gorffennaf
Y Sblash Mawr (manylion llawn ar dudalen 4)
Amseroedd amrywiol, gweithgareddau o gwmpas Glan yr Afon ac amryw leoliadau ar hyd a lled y ddinas

24 Gorffennaf, 7.45pm
Louder Is Not Always Clearer: Rhagddangosiad Sioe Caeredin

26 Gorffennaf, 8.15pm
Sied Gomedi (Perfformwyr eto i'w cyhoeddi)

THEATR DOLMAN
01633 263670
www.dolmantheatre.co.uk

5-7 Medi, 7.15pm
Thoroughly Modern Millie gan Glass Ceiling Theatre

25-28 Medi, 7.15pm
Aida gan Young Venture Players

Y BONT GLUDO
01633 656656
www.newport.gov.uk/Transporter/Bridge

Y tymor yn para tan 29 Medi
Ar agor dydd Mercher tan ddydd Sul a phob gŵyl banc, o 10am tan 5pm

TŶ TREDEGAR
www.nationaltrust.org.uk/tredegar-house

20 Gorffennaf – 1 Medi
Ewch ar helfa sborion, ticiwch '50 o bethau', mwynhewch bicnic, a chasglwch becyn antur i wneud yn fawr o'r dyddiau heulog hir - **dyddiadau ar y wefan.**